# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 30 Ebrill 2024 am 7:00 yr hwyr.

**Presennol**
John Brinley Jones (C) Thomas Victor Jones , Hywel James Sinclair Evans, Greta Hughes, William Roger Jones, Ian Goronwy Williams, Alan Harper-Smith, Kevin Wheatley, Keith Williams, Ann Llwyd (Cyfieithydd), Carys Jones (Clerc)

**1. Ymddiheuriadau**
Gwenllian Davenport Hughes
David Andrew Parry

**Datgan Buddiant**
Dim

**2. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 26 Mawrth 2024**

Cynnig: Thomas Victor Jones
Eilydd: Ian Goronwy Williams

Cytunwyd yn unfrydol.

**3. Unrhyw Fater Brys**

Ymddiswyddiad y Clerc
Adroddodd y Cadeirydd bod y Clerc wedi ymddiswyddo.
Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi cynnig ei hymddiswyddiad am resymau personol, meddygol ac oherwydd ei bod yn bryderus iawn am yr Awdit llawn, gan nad yw hi wedi gwneud Awdit o'r blaen. Eglurodd y Clerc ymhellach ei bod hi'n anodd cwblhau'r cyfrifon gan nad hi wedi derbyn manylion llawn am y ddau gyfrif hefo Nat West ers iddi ddechrau yn ei swydd. Awgrymodd Greta Hughes efallai y byddai cael cyfrif ar-lein yn haws.

Awdit 2023-24

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Ffurflen Flynyddol 2023 wedi ei chwblhau a'i gyrru i'r archwilydd mewnol erbyn 25/04/23. Adroddodd ymhellach fod llawer mwy o waith i'w wneud ar gyfer Awdit Allanol. Nododd Thomas Victor Jones fod pethau wedi newid - Awdit wedi mynd yn broses fwy cymhleth o lawer, ee angen mwy o ffigurau a thystiolaeth. Nododd ymhellach fod sawl Cyngor wedi bod yn cwyno am hyn ac am y diffyg adborth am Awdit. Gofynnodd William Roger Jones beth sydd yn wahanol mewn Awdit Allanol? Eglurodd y Cadeirydd fod mwy o fanylder ee mwy o ffurflenni i'w cwblhau a dogfennau a pholisïau i'w diweddaru ar gyfer Awdit Allanol. Cynigiodd Greta Hughes gael cyfrifydd i wneud y gwaith yma. Cytunodd Hywel James Sinclair Evans, gan fod y rhain yn ddogfennau ariannol pwysig. Gofynnodd Greta Hughes, pe bai'r Cyngor Cymuned yn cael rhywun i helpu hefo'r Awdit Allanol, fyddai'r Clerc yn ystyried parhau yn ei swydd? Cytunodd y Clerc i ystyried hyn. Holodd William Roger Jones tybed fyddai'r holl aelodau yn ystyried helpu hefo'r dasg, ag i'r is-gadeirydd cydlynu efo pawb er mwyn cael cwblhau'r Awdit mewnol?

Cynnig: William Roger Jones  Eilydd: Ian Goronwy Williams

Cytunwyd yn unfrydol.

Lwfans Aelodau
Eglurodd y Cadeirydd, fel rhan o'r Awdit, bydd angen cwblhau gwaith papur am lwfans aelodau. Holodd William Roger Jones am beth yn union oedd y lwfans?
Atebodd y Cadeirydd mai lwfans am gostau personol, costau gofal ac ati oedd o. Adroddodd ymhellach fod aelodau yn y gorffennol wedi penderfynu peidio cael lwfans. Awgrymodd fod bob aelod yn penderfynu yn unigol o blaid neu yn erbyn derbyn lwfans.

Cynnig optio allan: Ian Goronwy Williams
Eilio: Greta Hughes
Cytuno'n unfrydol.

Y wefan
Adroddodd y Cadeirydd fod angen diweddu'r wefan a bod hyn yn rhan o'r gwaith sydd angen ei wneud ar gyfer yr Awdit.

20/30 Milltir yr Awr
Atgoffodd Alan Harper-Smith yr aelodau o ymateb diwethaf Cyngor Gwynedd i gais Cyngor Cymuned Llanbedrog am adolygiad o'r cyfyngiadau cyflymder yn y pentref. Roedd Cyngor Gwynedd wedi cytuno i edrych eto ar y mater ym mis Medi.
Awgrymodd, e-bostio Cyngor Gwynedd eto yn gofyn a yw'n bosib edrych ar hyn yn gynt.

Y Llong/ The Ship – Carafan wedi ei lleoli yn y Maes Parcio.
Adroddodd y Cadeirydd fod carafán wedi ei lleoli ym maes parcio Y Llong (Ship) yn Llanbedrog. Holodd os oedd rhywun yn gwybod pwy biau'r garfan ac ydi'r perchnogion wedi cael caniatâd? Eglurodd Alan Harper-Smith mai landlord y Llong (Ship) sydd berchen y garafán, a'i bod yn defnyddio'r garafán i gynnig llety i'w cogydd, gan nad oes tai fforddiadwy yn yr ardal. Gofynnodd y Cadeirydd os oedd o wedi cael caniatâd?
Adroddodd William Roger Jones fod carafan arall ger Glyn Garth a bod angen tynnu sylw at y garafán yma hefyd.
Cynigiodd Ian Goronwy Williams bod y Cyngor Cymuned yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i holi am hyn.
Eilio: Thomas Victor Jones Cytunwyd yn unfrydol.

Parcio Anghyfreithlon – Y Gali, Llanbedrog
Cadarnhaodd Alan Harper-Smith y bydd arwydd newydd yn cael ei arddangos mis nesaf yn y lleoliad yma.

Toiledau Cyhoeddus
Cadarnhaodd y Clerc fod Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau trwy e-bost y gost o gadw'r Toiledau Cyhoeddus yn agored am 12 mis o'r flwyddyn. Gofynnodd Alan Harper-Smith os byddai'r Cyngor Cymuned yn cysylltu â Laura o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, i holi os yw'r wybodaeth yma'n ddigonol. Os yw'n ddigonol, yna dylid gofyn a fuasent cystal ag anfon eu cyfraniad nhw i'r Cyngor Cymuned. Awgrymodd Thomas Victor Jones y byddai'n well i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol anfon eu cyfraniad nhw yn uniongyrchol at Gyngor Gwynedd. Holodd Alan Harper-Smith fyddai hyn ddim yn cymhlethu pethau - contract tri pharti? Cytunwyd i aros am ymateb gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn y lle cyntaf.
Cytunwyd yn unfrydol.

Mater Brys Arall - "Woodcroft"
Cododd Greta Hughes fater brys arall sef "Woodcroft" - tŷ newydd uchel iawn. Nododd fod y trigolion cyfagos yn bryderus am yr uchder ac wedi bod yn holi tybed ydi'r perchnogion wedi cael caniatâd i adeiladu tŷ o'r uchder yma? Eglurodd ymhellach fod trigolion lleol wedi bod yn ei holi os oedd Cyngor Gwynedd i fod i wneud gorfodaeth parthed yr uchder? Nododd fod sawl un wedi nodi nad oed digon o le i'r ceir i gyd.
Eglurodd y Cadeirydd fod modd gweld beth oedd yr amodau, cyfyngiadau uchder ac ati drwy edrych ar y cais cynllunio gweiddiol.

**4. Anaf Personol – diweddariad**
Dim diweddariad pellach.

**5. Llwybrau - diweddariad**
Cadarnhaodd y Cadeirydd fod dau gontractwr wedi cael cynnig gwaith sef RJ ac OP:

Cae Chwarae a Chae Llan - i RJ
Fynwent a Llwybrau - i OP.

Nododd y Clerc fod RJ wedi bod mewn cysylltiad ac yn awyddus i ddechrau'r gwaith ar ôl i'r tywydd wella. Bydd angen cysylltu ag OP o ofyn iddo gadarnhau ei fod yn hapus gydag amodau'r tendr newydd.

Llwybr trwy'r Nant
Tynnodd Ian Goronwy Williams sylw'r aelodau at leoliad llwybr trwy'r nant. Nododd fod yna ran wedi cael ei goncritio a bod cerrig reit fawr "pebbles" wedi cael eu rhoi i law hefyd a bod y rhain yn beryglus. Holodd os oedd rhywun yn gwybod pwy oedd yn gyfrifol hyn?
Awgrymodd y Cadeirydd fod y Cyngor Cymuned yn cysylltu hefo'r Swyddog Llwybrau i dynnu sylw at hyn.

Cytunwyd yn unfrydol.

**6. Y Fynwent**
Y Fynwent Newydd
Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael gair hefo'r contractwr a drwsiodd wal y fynwent rhai wythnosau ynol. Eglurodd fod gan y contractwr waith i'w gwblhau ar leoliad arall yn gyntaf. Adroddodd ymhellach ei fod wedi bod yn y fynwent y penwythnos diwethaf a bod neb wedi bod yno yn cwblhau'r gwaith.

Ychwanegodd Ian Goronwy Williams fod cwningod yn broblem yn y fynwent a'u bod wedi bod yn tyllu o dan y cerrig beddi. Dywedodd William Roger Jones fod cwningod yn bla yn y fynwent a bod ambell garreg fedd wedi disgyn. Nododd fod rhai trigolion cyfagos yn ardal Morfa Nefyn ac Aberdaron wedi cyflogi dyn i saethu 60-70 o gwningod. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod OP wedi bod yn torri'r gwellt yn y fynwent a'i fod yn edrych yn daclus. Ychwanegodd y Clerc fod angen talu am label newydd ar gyfer y bin brown y fynwent.

**7. Cae Chwarae**
Adroddodd Hywel James Sinclair Evans fod Alaw Ceris wedi gwneud cais am ddau grant. Un gan Anedd ar ail gan The John Andrews Foundation - sydd â chysylltiadau â Phlas Glyn y Weddw.

Dywedodd Ian Goronwy Williams nad oedd cyfarfod wedi bod ers cyfarfod Cyngor Cymuned diwethaf.

Yna, cafwyd cais gan Hywel James Sinclair Evans i aelodau Cyngor Cymuned Llanbedrog gymeradwyo dyfynbris Cyngor Gwynedd am £1620 i dorri'r Cae Chwarae. Eglurodd fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn torri'r gwair yno yn y gorffennol a bod y gwair yn cael ei adael yno. O ganlyniad, doedd plant lleol ddim yn gallu chwarae pêl droed. Eglurodd ymhellach fod Cyngor Gwynedd wedi cael peiriant newydd ac o ganlyniad fe fyddai'r ddarpariaeth yn newid. Nododd hefyd fod Pwyllgor y Cae Chwarae yn awyddus i gadw 9.8 mil wrthgefn i wneud ceisiadau pellach ee lleoliad natur a bod angen "match funding" fel rhan o'r cais hwn.
Holodd y Cadeirydd pam na ellid defnyddio'r tractor newydd ar gyfer y gwaith yma? Atebodd Hywel James Sinclair Evans fod angen lefelu'r cae pêl droed. Holodd y Cadeirydd ymhellach os mai amcan bris oedd hwn? Os hynny, byddai angen cael amcan bris arall. Atebodd Hywel James Sinclair Evans fod pris o £1150 wedi cael ei dderbyn gan RJ. O ran defnyddio'r tractor i wneud y gwaith, dywedodd Hywel James Sinclair Evans y byddai'n llawer o waith i wirfoddolwyr ei wneud. Felly cynigiodd Hywel James Sinclair Evans fod yr aelodau'n cymeradwy pris Cyngor Gwynedd.
Eilio: William Roger Jones.
Cytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo pris Cyngor Gwynedd.

Adroddodd Hywel James Sinclair Evans fod gwaith mapio wedi dechrau. Dywedodd y cadeirydd fod “digital mapping” yn dda. Dywedodd Hywel James Sinclair Evans ei fod wedi bod yn defnyddio mapio Dŵr Cymru a Mapping Wales ac efallai y bydd angen gwneud arolwg yn y dyfodol. Nododd hefyd y byddai ef ac aelodau’r pwyllgor Cae Chwarae yn croesawu unrhyw syniadau. Awgrymodd Kevin Wheatley fod y pwyllgor yn ystyried ail-ddefnyddio rhai o’r meinciau, oherwydd bod yna rai meinciau o ansawdd da iawn. Awgrymodd hefyd y gallent ofyn i Roger Fisher i wneud gwaith ar y meinciau. Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi’n bwysig cadw’r placiau.
Awgrymodd Kevin Wheatley y byddai’n syniad da rhoi rhai o’r meinciau yn y safle bws. Y broblem hefo hynny, yn ôl y Cadeirydd yw’r tebygolrwydd i blant a phobl ifanc ymgasglu yno. Cytunodd Kevin Wheatley i gael gair hefo Roger Fisher ac i sôn am y tyllau cwningod yn y fynwent hefyd.

**11. Neuadd y Pentref**
Adroddodd Ian Goronwy Williams fod Gwenllian Davenport Hughes wedi rhoi’r gorau i’w rôl fel Ysgrifennydd oherwydd pwysau gwaith. Bydd hysbyseb yn cael ei roi yn y papur bro Llanw Llŷn fis nesaf. Adroddodd ymhellach y bydd yn cysylltu â’r Ysgol Feithrin cyn dechrau’r gwaith yn y Neuadd Bentref.

Clwb Snwcer
Nododd Ian Goronwy Williams fod tipyn o gadeiriau yn y Clwb Snwcer. Dywedodd fod angen sortio trwy’r cadeiriau hyn i weld pa rai i’w taflu a pha rai i’w cadw, ond bydd angen trefnu sgip cyn mynd i’r afael â’r dasg yma.

Dreiniau
Dywedodd Ian Goronwy Williams fod Cyngor Cymuned Llanbedrog wedi cytuno i wneud cyfraniad ariannol tuag at y gwaith ar y dreiniau a’i fod yn bwriadu gwneud cais am grant i’r Loteri Genedlaethol.

**Unrhyw Fater Arall**

Nododd y Cadeirydd fod David Andrew Parry wedi gofyn iddo sôn am Lôn Lan y Môr ar gyfyngiad cyflymder 20 milltir yr awr. Dywedodd fod David Andrew Parry o’r farn y byddai cael rampiau “speed bumps” fel o flaen yr ysgol yn y lleoliad yma, oherwydd mae’n anodd tynnu allan a nifer o blant o gwmpas hefyd. Dywedodd Hywel James Sinclair Evans ei fod yn cytuno fod y lleoliad yma’n beryglus a’i fod ger y garej sydd yn gwasanaethu llawer o bobl. Awgrymodd fod y Clerc yn tynnu sylw Cyngor Gwynedd at hyn yn yr un e-bost am gyfyngiadau cyflymder.

Adroddodd y Cadeirydd am farwolaeth Mr Berwyn Jones, Coron. Roedd ei dad wedi bod yn aelod o Gyngor Cymuned Llanbedrog a Berwyn wedi cynllunio’r ddelw ar y mynydd. Gofynnodd i’r Clerc anfon cerdyn cydymdeimlad at deulu Coron, Llanbedrog.

Holodd Alan Harper-Smith os oedd yna unrhyw ddiweddariad am y fferm solar? Dywedodd Hywel James Sinclair Evans ei fod wedi bod ar y wefan ac wedi edrych ar y polisi a’i fod yn edrych yn gymhleth. Cynigiodd ddarllen drwy’r polisi ac adrodd yn ôl i’r Cadeirydd ar Clerc. Gofynnodd Greta Hughes am gopi hefyd, gan ei bod wedi cytuno i gynrychioli’r trigolion lleol yn y cyfarfod cynllunio. Cytunodd Hywel James Sinclair Evans i wneud hynny.

**Ceisiadau Cynllunio:**

**C24/0317/38/DT** Pen Y Gors, Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7UP.

Esboniodd y Cadeirydd mai cais sydd yma i godi’r to ychydig. Eglurodd ymhellach fod y tŷ yma wedi bod yn dŷ haf am flynyddoedd a bod y perchnogion presennol eisiau ei ddefnyddio fel cartref parhaol, a’i bod yn bwriadu rhoi paneli solar ar y to. Nododd ymhellach fod llwybr cyhoeddus yn mynd heibio’r tŷ a’i bod yn bwysig cadw hwnnw’n glir.

Awgrymodd Ian Goronwy Williams fod y Cyngor Cymuned yn tynnu sylw at y llwybr ac yn cadarnhau nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r gwaith ar y to.

Cytunwyd yn unfrydol.

**Taliadau i'w cymeradwyo:**

| | | |
|---|---|---|
| Ann Llwyd (Cyfieithydd) | - | £ 70.00 |
| Cyflog y Clerc | - | £416.00 |
| PAYE | - | £104.00 |
| Emyr Mortimer (PAYE) | - | £ 42.90 |

Cytunwyd yn unfrydol i'r taliadau uchod.